Wales Centre for Public Policy
Canolfan Polisi Cyhoeddus Cymru

# Diffinio, Mesur a Monitro Iechyd Democrataidd yng Nghymru.

**Dr Viktor Valgardsson, Dr Matt Ryan, yr Athro Will Jennings, yr Athro James Downe a Greg Notman**

Hydref 2023

# Ein Cenhadaeth

Mae Canolfan Polisi Cyhoeddus Cymru yn helpu i wella gwasanaethau cyhoeddus a'r broses o lunio polisïau drwy gefnogi gweinidogion ac arweinwyr gwasanaethau cyhoeddus i gyrchu tystiolaeth annibynnol drylwyr am yr hyn sy'n gweithio, a'i gymhwyso. Mae'n gweithio mewn partneriaeth ag ymchwilwyr ac arbenigwyr polisi blaenllaw i gyfosod a defnyddio tystiolaeth sy'n bodoli eisoes a nodi bylchau lle mae angen cynhyrchu gwybodaeth newydd.

Mae'r Ganolfan yn annibynnol ar y llywodraeth ond mae'n gweithio'n agos gyda llunwyr ac ymarferwyr polisïau i ddatblygu syniadau newydd ynghylch sut mae mynd i'r afael â heriau strategol ym meysydd iechyd a gofal cymdeithasol, addysg, tai, yr economi a chyfrifoldebau datganoledig eraill. Mae'n gwneud y canlynol:

- Cefnogi Gweinidogion Llywodraeth Cymru i nodi, cyrchu a defnyddio tystiolaeth awdurdodol ac arbenigedd annibynnol a all helpu i lywio a gwella polisïau;
- Gweithio gyda gwasanaethau cyhoeddus i gyrchu, cynhyrchu, gwerthuso a chymhwyso tystiolaeth ynghylch yr hyn sy'n gweithio o ran mynd i'r afael â'r prif heriau economaidd a chymdeithasol;
- Defnyddio'i gwaith gyda Gweinidogion a gwasanaethau cyhoeddus i hyrwyddo dealltwriaeth o sut y gall tystiolaeth lywio a gwella gwasanaethau cyhoeddus a'r broses o lunio polisïau a a chyfrannu at ddamcaniaethau ynghylch llunio a gweithredu polisïau.

Drwy secondiadau, lleoliadau doethuriaeth a'i rhaglen Prentisiaethau Ymchwil, mae'r Ganolfan hefyd yn helpu i feithrin gallu ymysg ymchwilwyr i gymryd rhan mewn ymchwil sy'n berthnasol i bolisïau sy'n cael effaith.

I gael rhagor o wybodaeth, ewch i'n gwefan yn [www.wcpp.org.uk](http://www.wcpp.org.uk)

## Arianwyr Craidd

**Sefydlwyd Prifysgol Caerdydd** yn 1883. Mae Caerdydd yn brifysgol uchelgeisiol ac arloesol sydd wedi'i lleoli mewn prifddinas ffyniannus, sy'n ymgyrraedd at feithrin perthnasau rhyngwladol cryfion tra'n dangos ei hymrwymiad i Gymru.

**Mae'r Cyngor Ymchwil Economaidd a Chymdeithasol (ESRC)** yn rhan o Ymchwil ac Arloesedd y DU, sefydliad newydd sy'n dwyn ynghyd saith cyngor ymchwil y DU, Innovate UK a Research England i wneud y mwyaf o gyfraniad pob cyngor a chreu'r amgylchedd gorau i ymchwil ac arloesi ffynnu.

**Llywodraeth Cymru** yw llywodraeth ddatganoledig Cymru, sy'n gyfrifol am feysydd allweddol o fywyd cyhoeddus, gan gynnwys iechyd, addysg, llywodraeth leol, a'r amgylchedd.

# Cynnwys


**Crynodeb** 4

**Cyflwyniad** 5

**Cwestiynau ymchwil** 6

Sut olwg sydd ar ddemocratiaeth iach? 6

Sut y gallwn ni fesur iechyd democrataidd? 10

Sut y gallwn ni fonitro iechyd democrataidd yng Nghymru? 13

**Casgliad** 19

**Cyfeirnodau** 21

# Crynodeb


- Mae’r adroddiad hwn yn rhoi dadansoddiad cynhwysfawr o iechyd democrataidd, gan ganolbwyntio ar safbwyntiau byd-eang a’u goblygiadau i Gymru. Mae'n cydnabod bod pryderon am iechyd democrataidd yn gyffredin ledled y byd.
- Yng Nghymru, mae’r heriau i iechyd democrataidd yn hanesyddol wedi ymwneud â chofrestru etholiadol isel, nifer isel yn pleidleisio, a diffyg ymwybyddiaeth wleidyddol yn gyffredinol ymhlith y boblogaeth. Yn fwy diweddar, mae ofnau cynyddol am “wrthgilio democrataidd”, lle mae safonau democrataidd yn dirywio'n raddol dros amser.
- Mae'r adroddiad yn nodi meini prawf ar gyfer democratiaeth iach, gan gynnwys ymgysylltiad a chyfranogiad eang dinasyddion; etholiadau teg, a hawliau sifil cryf; cydymgynghori gwleidyddol rhesymegol ac adeiladol; cydraddoldeb gwleidyddol, cymdeithasol ac economaidd; llywodraethiant ymatebol; a mynediad agored i wybodaeth gywir.
- Mae ffynonellau posibl ar gyfer mesur y meini prawf hyn yn cynnwys ystadegau swyddogol, arolygon barn y cyhoedd, a dadansoddiadau arbenigol, yn ogystal â dangosyddion mwy penodol.
- Mae yna brosiectau amrywiol sy’n darparu mesurau meintiol o iechyd democrataidd, er nad oes unrhyw waith presennol yn canolbwyntio’n benodol ar Gymru.
- Mae’r adroddiad yn nodi ffyrdd posibl o fonitro iechyd democrataidd yng Nghymru, megis ymgorffori mesurau mewn arolygon presennol, comisiynu dadansoddiadau arbenigol, a datblygu offer mesur pwrpasol.
- Un opsiwn yw cynnwys Cymru mewn prosiectau rhyngwladol sy'n bodoli eisoes sydd wedi'u codio gan arbenigwyr. Fel arall, gall Llywodraeth Cymru ddatblygu ei fframwaith asesu ei hun sy’n seiliedig ar ddangosyddion a methodolegau rhyngwladol.
- Er y gall arolygon presennol fel dangosyddion cenedlaethol Llesiant Cymru ac arolygon Astudiaeth Etholiad Cymru ddarparu data gwerthfawr, mae’n bwysig cynnwys y mesurau hyn yn gyson mewn arolygon yn y dyfodol er mwyn monitro iechyd democrataidd dros amser.

# Cyflwyniad

Mae’r adroddiad hwn yn cyfosod sut mae iechyd democrataidd yn cael ei ddiffinio, ei fesur a’i fonitro ledled y byd, gyda ffocws penodol ar sut y gellid cymhwyso’r dysgu hwn yng Nghymru. Mae'n ymateb i’r ymrwymiad yn y Rhaglen Lywodraethu i leihau'r ‘diffyg democrataidd’.

Mae pryderon ynghylch iechyd democrataidd yn ffenomen fyd-eang, sy'n aml yn cael ei sbarduno gan argyfyngau neu ddigwyddiadau sy'n arwain at bwysau cyhoeddus yn gofyn am ddiwygio. Ond yng Nghymru (a'r DU yn ehangach), fodd bynnag, ers tro byd mae materion iechyd democrataidd wedi ymwneud â chofrestru etholiadol isel a nifer isel yn pleidleisio, a diffyg ymwybyddiaeth a dealltwriaeth wleidyddol yn gyffredinol ymhlith y boblogaeth. Yn fwy diweddar, bu hefyd ofnau bod ‘wrthgilio democrataidd’ yn digwydd yn y DU, sef proses raddol lle mae gwladwriaethau'n dod yn llai democrataidd dros amser (Russell, Renwick a James, 2022).

Nododd bord gron diweddar gan y Sefydliad Materion Cymreig (IWA) nad yw’r mwyafrif o bobl Cymru “yn teimlo eu bod yn gallu dylanwadu ar benderfyniadau am eu hardal, a bod hyn yn gyfystyr ag argyfwng mawr i’n democratiaeth” (Moore, 2023: 6). Daeth y ford gron i'r casgliad bod angen set o fetrigau sy'n monitro amrywiaeth o ymddygiadau ac agweddau. Nod ein hadroddiad yw gwella dealltwriaeth o’r meincnodau ar gyfer democratiaeth iach, er mwyn darparu’r darlun eglur sydd ei angen i gynyddu ymgysylltiad â phrosesau democrataidd a gwella iechyd democrataidd Cymru.

Mae democratiaeth yn seiliedig ar nifer o egwyddorion hanfodol, megis cyfranogiad rhydd a chyfartal dinasyddion mewn penderfyniadau gwleidyddol, mynediad at wybodaeth o ansawdd ar draws cymdeithas, a chydymgynghori rhesymegol. Mae'n bwysig gallu deall a monitro sut mae'r nodau hyn yn cael eu cyflawni. Ac eto mae arferion democratiaeth wedi gorfod newid mewn ymateb i newidiadau mewn cymdeithas, gan gan arwain at darged symudol anodd. Mewn democratiaethau sefydledig o’r fath a geir yng Nghymru, mae dealltwriaeth o bwy ddylai bleidleisio, a pha mor ymatebol y dylai llywodraethau fod i seneddau a’r cyhoedd wedi esblygu dros flynyddoedd lawer. Mewn democratiaethau iach, mae etholiadau cyfnodol bellach yn cael eu hategu gan ecosystem gyfoethog o sefydliadau eraill – cyfleoedd i gyfranogi mewn trafodaethau ac ymgyngoriadau ar bolisïau, yn ogystal â chyfleoedd i gymryd rhan drwy fecanweithiau a ddarperir gan sefydliadau cymdeithas sifil sy'n dod â phobl o'r un anian ynghyd i weithio dros newid. Nid yw mesur a monitro iechyd democrataidd yn hawdd ond mae'n hanfodol oherwydd, er gwaethaf cefnogaeth barhaus i ddelfrydau democrataidd ledled y byd, mae sefydliadau democrataidd

hefyd dan fygythiad (Levistky a Ziblatt 2018). Mae democratiaeth iach yn hynod werthfawr oherwydd y gall dinasyddion ddatrys anghydfodau yn heddychlon ac ymateb i heriau, gan ei gwneud yn bosibl i gymdeithas ffynnu.

# Cwestiynau ymchwil

Mae'r adroddiad hwn yn ymdrin â thri chwestiwn ymchwil:

1. Beth fyddai nodweddion democratiaeth iach yng Nghymru?
2. Beth yw'r ffordd orau o gasglu data a'i adrodd er mwyn mesur iechyd democrataidd yng Nghymru?
3. Beth yw'r ffordd orau o fonitro iechyd democrataidd Cymru?

## Sut olwg sydd ar ddemocratiaeth iach?

Democratiaeth yw un o'r cysyniadau gwreiddiol y bu dadlau dros ei hanfodion erioed (Gallie, 1955): mae'n golygu gwahanol bethau i wahanol bobl. Mae'r gair yn golygu 'rheolaeth y bobl', ond ceir gwahanol safbwyntiau ynghylch sut y dylai hyn edrych yn y byd go iawn.

Yng Ngwlad Groeg yr henfyd, roedd dynion rhydd yn rheoli'r ddinas-wladwriaeth gyda'i gilydd drwy gyfarfodydd mawr a thrwy cylchdroi cyfrifoldebau. Er bod trefniadau tebyg wedi goroesi hyd heddiw mewn dau ganton yn y Swistir a nifer o drefi yn New England yn Unol Daleithiau America(Budge, 1996; Bryan, 2004), mae cenedl-wladwriaethau modern a'r rhan fwyaf o gymunedau gwleidyddol yn rhy fawr a chymhleth i hyn fod yn ymarferol. Dyma un o'r rhesymau pam mai'r norm a ddatblygodd ar gyfer democratiaeth oedd y dylai dinasyddion 'reoli' trwy bleidleisio dros gynrychiolwyr i redeg eu llywodraeth (Manin, 1997). Yn yr 20$^{fed}$ ganrif, awgrymodd rhai damcaniaethwyr 'minimalaidd' democratiaeth fod democratiaeth yn ymwneud ag etholiadau rhydd, teg, cystadleuol *yn unig* (gweler Schumpeter, 1942; Przeworski, 1999), tra pwysleisiodd damcaniaethwyr democrataidd mwy 'rhyddfrydol' fod hawliau a rhyddidau dinesig amrywiol hefyd yn hanfodol i ddemocratiaeth (Dahl, 1971; 2006).

Yn y 1970au a'r 1980au, amlinellodd sawl awdur fod gwerth cymdeithasol a dinesig i gyfranogiad eang dinasyddion mewn gwleidyddiaeth (Pateman, 1970; Mansbridge, 1983), a oedd wedi dechrau dod i'r amlwg gyda'r genhedlaeth a oedd yn dod i oed yn ystod y cyfnod hwnnw (Jennings, 1987), a dechreuodd cefnogwyr democratiaeth fwy 'uniongyrchol' chwilio am ysbrydoliaeth o ddamcaniaethau clasurol ynghylch rheolaeth y bobl (Budge, 1996).

Yna rhoddodd damcaniaethwyr democrataidd sylw i werth *cydgymgynghori* gwybodus, rhesymegol a pharchus rhwng dinasyddion fel hanfod democratiaeth (Habermas, 1985; Bohman, 1996). Daeth democratiaeth gydgymgynghorol yn hynod boblogaidd fel damcaniaeth academaidd yn y 1990au, er i rai damcaniaethwyr amlygu bod cyfranogiad grwpiau cymdeithasol amrywiol a'u cynnwys (yn enwedig grwpiau ar y cyrion) hefyd yn hanfodol i ddemocratiaeth (Young, 1990; Phillips, 1995). Er bod gwahaniaethau barn yn parhau, mae democratiaeth gydymgynghorol wedi dod yn fwy integredig yn ddiweddar â damcaniaethau democrataidd eraill, gan amlygu'r ffaith bod cydgynghori yn werth democrataidd pwysig sy'n atgyfnerthu gwerthoedd democrataidd eraill (Bohman, 1998; Elstub and Gagnon, 2015).

Mae amrywiaeth o ymchwilwyr wedi dadlau o blaid dull lluosog o ddiffinio democratiaeth, gan gynnwys defnyddio 'nwyddau' neu 'egwyddorion' democrataidd gwahanol i ddangos enghreifftiau o iechyd democrataidd da (Saward, 2003; Smith, 2009). I Smith (2009:  11), y rhain yw cynwysoldeb, rheolaeth y bobl, barn ystyriol a thryloywder.

Yn yr un modd, mae'r prosiect ymchwil Amrywiaethau o Ddemocratiaeth (V-Dem) yn seilio'i waith ar bum delfryd ddemocrataidd ar wahân: democratiaeth etholiadol, rhyddfrydol, cydymgynghorol, egalitaraidd a chyfranogol. (Coppedge et al., 2011; 2016). Mae dull yr 'archwiliadau democrataidd' yn defnyddio dull tebyg ond hierarchaidd (Y Sefydliad dros Ddemocratiaeth a Chymorth Etholiadol (IDEA)) gan eu bod yn nodi mai cydraddoldeb gwleidyddol a rheolaeth y bobl sydd wrth wraidd democratiaeth, wedi'u hategu gan 'werthoedd cyfryngu' megis cyfranogiad, cynrychiolaeth, atebolrwydd, tryloywder ac ymatebolrwydd sydd, yn o'u cysyniadu, yn 'rhoi effaith i'r egwyddorion hyn' yn y byd go iawn (Beetham et al., 2008).

Mae'r dadansoddiad hwn o sut mae democratiaeth yn cael ei ddiffinio a'i ddeall dros amser yn ein galluogi i gyfosod y meini prawf allweddol sy'n ffurfio democratiaeth iach. Y meini prawf hyn yw:

1) Etholiadau rhydd a theg a hawliau sifil cryf;
2) Ymgysylltu, ymwybyddiaeth a chyfranogiad eang dinasyddion, gan gynnwys cymdeithas sifil gref, weithgar a dwys;
3) Cydymgynghori gwleidyddol rhesymegol ac adeiladol;
4) Cydraddoldeb gwleidyddol, cymdeithasol ac economaidd, gan gynnwys cynrychiolaeth gytbwys mewn llywodraeth ac ymhlith deddfwyr
5) Llywodraeth ymatebol, sy'n adlewyrchu dymuniadau ac anghenion dinasyddion;

6) Mynediad agored at wybodaeth gywir, drwy lywodraeth dryloyw a chyfryngau cryf, annibynnol.

Mewn egwyddor, gellir cymhwyso'r meini prawf hyn i unrhyw gymuned wleidyddol er, yn ymarferol, maent wedi cael eu cymhwyso i genedl-wladwriaethau modern gan amlaf. Yn y cyd-destun Cymreig, mae’r egwyddorion hyn yn berthnasol i’r gymdeithas Gymreig yn ei chyfanrwydd – a’r system wleidyddol genedlaethol ddatganoledig – ond hefyd i’r llywodraethau lleol niferus sy’n gweithredu ar draws gwahanol gymunedau yng Nghymru.

Wrth benderfynu ar ddosbarthiad awdurdod gwleidyddol o fewn cymunedau gwleidyddol, cyfeirir yn aml at ‘egwyddor sybsidiaredd’, yn enwedig yn yr Undeb Ewropeaidd a chenedl-wladwriaethau ffederal. Mae’r egwyddor hon yn datgan y dylai lefelau is o lywodraethau (llywodraethau lleol, rhanbarthol a chenedlaethol ymreolaethol), yn ddiofyn, fod ag awdurdod dros dasgau a materion o fewn eu tiriogaeth, oni bai y gellir dangos y gall llywodraeth ar lefel uwch eu trin yn fwy effeithiol (Føllesdal, 1998; Goodin et al., 2007).  Er nad yw’r DU yn ffederasiwn datganoledig cymesur, mae egwyddor sybsidiaredd hefyd yn berthnasol i Gymru a’i llywodraethau lleol cyfansoddol, fel cenedl ddatganoledig sefydledig gyda chymwyseddau clir. Mae’r uchelgais ar gyfer democratiaeth Gymreig iach, felly, yn un lle rhoddir ystyriaeth i’r chwe maen prawf democrataidd allweddol hyn i raddau helaeth yng ngwleidyddiaeth materion a thasgau y mae gan Gymru a’i llywodraethau lleol cyfansoddol awdurdod drostynt. Byddai democratiaeth iach yng Nghymru hefyd yn helpu i gyfrannu at y saith Nod Llesiant a nodir yn Neddf Llesiant Cenedlaethau’r Dyfodol (Cymru) 2015, ac yn hwyluso’r gwaith o’u cyflawni.

## Beth yw'r heriau a sut mae iechyd democrataidd yn cael ei gynnal?

Er gwaethaf cefnogaeth gref a sefydlog barhaus am ddelfrydau democrataidd ledled y byd, mae'r gefnogaeth am eu harferion wedi bod yn betrus (e.e., Stoker, 2017). Mae ymddiriedaeth mewn llywodraethau yn dirywio, a chynnydd mewn polareiddio a phoblyddiaeth ar draws llawer o ddemocratiaethau hynaf y byd,  ac mae’r rhain yn ffactorau a allai fygwth hanfodion eu gwneuthuriad (Hetherington 2015; Dalton, 2017; Jennings et al 2017). I lawer, mae’r amheuaeth iach sy’n cadw llywodraeth dan reolaeth wedi berwi drosodd i anniddigrwydd â’r broses ddemocrataidd ei hun, ac ymddieithrio oddi wrth y system wleidyddol. Y pryder yw bod y gwrthwynebiad a’r ddadl resymegol, sy’n hanfodol ar gyfer y broses ddemocrataidd o ddatrys manylion materion cyfunol, wedi’u disodli’n fwy diweddar gan hunaniaethau pegynnu dwys, rhethreg atgas, a sinigiaeth gyrydol.

Mewn ymateb, mae llywodraethau, busnesau, ac elusennau eisoes yn chwilio am ffyrdd o gryfhau democratiaeth. Mae llawer o’r mentrau mwyaf llwyddiannus sydd wedi dangos sut y gall pobl gael mwy o reolaeth dros benderfyniadau ar y cyd wedi digwydd mewn rhanbarthau datganoledig. Mae enghreifftiau'n cynnwys prosiectau ‘cyllidebu cyfranogol’, a ddechreuodd yn Porto Alegre a bwrdeistrefi eraill ym Mrasil cyn lledaenu ledled y byd (Ryan, 2021); arloesiadau cyfranogol eraill megis proses ‘adolygu menter dinasyddion’ o Oregon (Gastil a Knobloch, 2020) a chynulliadau dinasyddion yn Columbia Brydeinig (Cutler et al., 2008); yn ogystal â Chynulliadau Cyfansoddiadol yn Iwerddon ac amrywiaeth o brosiectau tebyg ar draws y DU, Ewrop a’r tu hwnt (gweler e.e. Davidson ac Elstub, 2014; Elstub ac Escobar, 2019; Stoker ac Evans, 2022). Mae'r prosesau hyn yn cynnig ateb posibl i broblemau democratiaeth. Mae tystiolaeth ar gael y gall yr arloesiadau hyn gael canlyniadau cadarnhaol trawsnewidiol. Er enghraifft, mae tystiolaeth bod cysylltiadau cryf rhwng y fenter cyllidebu cyfranogol ym Mrasil a gostyngiadau yng nghyfraddau marwolaethau babanod (Touchton a Wampler, 2014). Drwy'r prosesau cyfranogol hyn, roedd dinasyddion cyffredin yn gallu esbonio i swyddogion y wladwriaeth mai'r hyn yr oedd ei wir angen arnynt oedd palmantu ar ffyrdd a fyddai'n ei gwneud yn bosibl i bobl o rannau tlawd y cymdogaethau gael mynediad i'r ganol y dref, a'i swyddi, masnach a diwylliant. Neu, yn yr un modd, yn Iwerddon, drwy ganiatáu i gydymgynghori ddigwydd mewn cynulliad dinasyddion – lleoliad diogel i ffwrdd o wres a sŵn dadl gyhoeddus sydd wedi gwreiddio – cafodd golau ei daflu ar sut roedd barn dinasyddion wedi newid, gan hwyluso ymgyrchoedd a arweiniodd at gadarnhau mwyafrifoedd newydd ar bynciau fel diwygio priodas ac erthyliad. Yn fwy diweddar, mae llywodraethau Eidalaidd datganoledig megis yn Nhysgani, Emilia-Romagna, Sisili, a Sardinia wedi arwain y ffordd o ran cyflwyno deddfau cyfranogiad rhanbarthol sy'n darparu fframweithiau cyfreithiol ac awdurdodau annibynnol i ddethol a chefnogi prosiectau cymdeithas sifil sy'n ennyn cyfranogiad amrywiaeth eang o grwpiau gyda'r nod o hybu democratiaeth.

Serch hynny, mewn llawer o gyd-destunau, mae arloesiadau democrataidd, sydd wedi’u hanelu at wella iechyd democrataidd, wedi methu â gwireddu eu nodau, er enghraifft pan fyddant ond yn yn ennyn cyfranogiad gan nifer bach o ddinasyddion, neu pan na all y llywodraeth reoli’r gofynion sy’n deillio o’r prosesau hyn (Gweler Ryan, 2021) . Mae gennym weledigaethau cystadleuol ynghylch sut beth yw democratiaeth iach, ond mae gennym syniadau clir o'r hyn nad ydyw. Er mwyn deall beth sy’n gweithio a phryd, mae’n hanfodol gwerthfawrogi’n union beth yw cyflwr iechyd democrataidd mewn rhanbarth / gwlad a gallu cynllunio’n ddeallus ymyriadau sy’n hybu a gwella iechyd democrataidd – a monitro’u heffaith bosibl. Bellach, mae corff mawr o waith academaidd y gall Llywodraeth Cymru ei ddefnyddio, sy’n dadansoddi ac yn dehongli llwyddiant parhaus sefydliadau hynaf democratiaeth yn ogystal â llwyddiant mentrau newydd sydd â’r nod o adfywio iechyd democrataidd.

## Sut y gallwn ni fesur iechyd democrataidd?

O ystyried y meini prawf ar gyfer diffinio iechyd democrataidd a amlinellir uchod, mae sawl ffordd o fesur iechyd democrataidd yng Nghymru, ond y ffynonellau mwyaf cyffredin o fesurau yw **ystadegau swyddogol, arolygon barn y cyhoedd a dadansoddiadau arbenigol.**

Mae nifer o brosiectau eisoes yn seilio'u mesurau o iechyd democrataidd ar lawer o'r dangosyddion hyn, er nad oes yr un ohonynt yn ymgorffori pob un ohonynt. Mae'n debyg mai'r amlycaf o'r rhain yw'r **prosiect Amrywiaethau o Ddemocratiaeth (V-Dem)**(Coppedge et al., 2022), prosiect ymchwil rhyngwladol sydd wedi'i leoli ym Mhrifysgol Gothenburg sy'n cyhoeddi mesurau wedi'u diweddaru bob blwyddyn ar gyfer cyflwr democratiaeth ym mhob cenedl-wladwriaeth yn y byd ers 1789.

Mae V-Dem yn mesur i ba raddau y mae pum delfryd ddemocrataidd gwahanol yn cael eu bodloni mewn gwlad: democratiaeth etholiadol, ryddfrydol, cydymgynghorol, egalitaraidd a chyfranogol. Maent yn darparu mesur mynegai cyffredinol ar gyfer pob delfryd, sydd ei hun yn cynnwys amrywiaeth o ddangosyddion sy'n cwmpasu gwahanol elfennau delfryd. Mae'r mesurau'n seiliedig ar waith codio arbenigwyr allanol[1] yn unol â chynllun codio a bennwyd ymlaen llaw, a dadansoddiadau ystadegol sy'n seiliedig ar batrymau codio gan wahanol arbenigwyr (Varieties of Democracy, 2023).

Mae digonedd o fesurau eraill o ddemocratiaeth. Y mesurau a ddefnyddiwyd fwyaf cyn dyfodiad V-Dem oedd **Polity IV / Polity 5** (Marshall et al., 2018) a'r mesur Hawliau Gwleidyddol a ddarperir gan **Freedom House**(Freedom House, 2023b). Mantais **Polity** (neu'r fantais roedd ganddo, cyn V-Dem) oedd y ffaith ei fod yn cwmpasu cyfnod hir, rhwng 1800 a 2018 (Polity5, 2023), ond mae'n seiliedig ar gysyniad cymharol finimalaidd o ddemocratiaeth, gan ganolbwyntio ar feini prawf cymharol glir megis p'un a gynhelir etholiadau cystadleuol, ond â llai o ffocws ar ffactorau megis y ffordd y caiff grwpiau eu heithrio'n systematig rhag cymryd rhan drwy ddulliau anffurfiol. Gall ffocws mor gyfyng wahaniaethu rhwng democratiaeth a sefyllfa nad yw'n ddemocratiaeth, ond nid yw'n addas iawn ar gyfer gwahaniaethu rhwng iechyd democratiaeth o fewn cyfundrefnau democrataidd. Yn 2018, cafodd 32 o wledydd y sgôr uchaf posibl ar y mesur, a chafodd yr Unol Daleithiau y marc hwnnw drwy gydol yr 20fed ganrif (see also Coppedge et al., 2011).

Mae'r sefydliad dielw **Freedom House** o'r Unol Daleithiau wedi darparu mesurau o gyflwr rhyddid sifil a hawliau gwleidyddol yn y rhan fwyaf o wledydd y byd ers 1972.

---

[1]Hynny yw, nid yw'r cydlynwyr V-Dem yn codio'r mesurau eu hunain – mae ganddynt gronfa o bron i 4,000 o arbenigwyr o wahanol wledydd y maent yn gofyn iddynt godio newidynnau ar gyfer gwledydd penodol.

Fel y mae'r enwau'n awgrymu, mae'r mesurau'n seiliedig ar gysyniad *rhyddfrydol* o ddemocratiaeth, gan ganolbwyntio ar gystadleuaeth etholiadol a hawliau dinasyddion ond nid ar gyfranogiad, cydymgynghori neu nwyddau democrataidd eraill. Mae eu mesurau hawliau gwleidyddol (a ddefnyddir amlaf fel eu mesur o ddemocratiaeth) yn cynnwys saith gwerth, ac yn 2023 rhoddwyd y gwerth 'mwyaf rhydd' i 47 o wledydd, sef rhif un ar y mynegai hwnnw, sy'n golygu ei fod hefyd yn arf cyfyngedig ar gyfer mesur gwahanol raddau o. iechyd democrataidd ymhlith democratiaethau sefydledig (er, ers 2013, maent hefyd wedi darparu mwy o ddata manwl ar gyfer is-fynegeion) (Freedom House, 2023a). Mae Freedom House yn gofyn i ddadansoddwyr arbenigol godio gwledydd ar bob mesur ond mae staff mewnol hefyd yn chwarae rhan wrth gydymgynghori a phenderfynu ar y sgoriau terfynol a roddir, ac mae rhywfaint o dystiolaeth wedi awgrymu y gallai'r sgoriau hynny fod yn rhagfarnllyd o blaid cynghreiriaid geo-wleidyddol yr Unol Daleithiau. (Steiner, 2016).

Ers 2006 mae **Mynegai Democratiaeth Uned Cudd-wybodaeth *The Economist*** wedi darparu mesurau blynyddol o iechyd democrataidd yn y rhan fwyaf o wledydd a thiriogaethau'r byd (167 yn 2022) ar draws amrywiol fesurau (The Economist Intelligence Unit, 2023). Mae'r mesurau hyn yn cwmpasu mwy o agweddau ar ddemocratiaeth na rhai Freedom House neu Polity IV, gan gyffwrdd ar gyfranogiad y cyhoedd, diwylliant gwleidyddol a chynrychiolaeth yn ogystal ag agweddau etholiadol a rhyddfrydol. Mae'r rhain yn cynnwys 60 o ddangosyddion wedi'u grwpio'n bum categori: proses etholiadol a phlwraliaeth; rhyddid sifil; gweithrediad y llywodraeth; cyfranogiad gwleidyddol; a diwylliant gwleidyddol. Mae'r sgoriau'n deillio o ddata arolygon yn ogystal â gwaith codio nodweddion amrywiol (deuaidd yn bennaf), ond mae'r broses y tu ôl i bennu'r sgorau olaf a'r fframwaith sy'n sail i'r union ddewis o ddangosyddion yn aneglur.

Mae mesurau eraill o iechyd democrataidd yn tueddu naill ai i ganolbwyntio ar agweddau mwy penodol ar ddemocratiaeth neu ar ystod lai o wledydd a chyfnodau. **Mae'r Prosiect Uniondeb Etholiadol (EIP)** yn cynnal arolwg arbenigol ar reolau etholiadau a'r ffordd y cânt eu cynnal mewn gwledydd, gan ganolbwyntio'n benodol ar ddimensiwn etholiadol democratiaeth. (Garnett et al., 2022). I'r gwrthwyneb, mae'r **Mynegai Ansawdd Disgwrs (DQI)** yn mesur ansawdd cydymgynghori gwleidyddol o fewn democratiaeth, gan ganolbwyntio ar y dimensiwn cydgynghorol. (Steiner et al., 2004). Mae hyn wedi'i wneud yn bennaf ar gyfer dadleuon seneddol mewn rhai gwledydd ac mae braidd yn llafurddwys, er bod dulliau diweddar sy'n defnyddio dysgu peirianyddol a modelau iaith mawr yn addawol. (Beste and Wyss, 2019).

Yn ogystal, mae sawl prosiect arall yn defnyddio'r mesurau a ddarparwyd gan y prosiectau uchod (a ffynonellau arolwg) ond yn eu hagregu neu'n eu cyflwyno mewn gwahanol ffyrdd. Fel y soniwyd uchod, mae'r prosiect IDEA yn darparu amrywiol ddangosyddion o iechyd democrataidd mewn gwledydd ledled y byd, sy'n seiliedig ar

egwyddorion craidd cydraddoldeb gwleidyddol a rheolaeth y bobl, yn eu **Mynegeion Cyflwr Democratiaeth Fyd-eang**, ond mae'r rhain yn seiliedig yn bennaf ar agregiad gwahanol o ddangosyddion a ddarperir gan y prosiect V-Dem (International IDEA, 2023). Yn yr un modd, mae **Sefydliad Ansawdd y Llywodraeth** yn darparu casgliad enfawr o fesurau iechyd democrataidd o ffynonellau eilaidd megis prosiectau V-Dem a Freedom House. (The QoG Institute, 2023).

Mae'r holl brosiectau uchod yn darparu mesurau meintiol o iechyd democrataidd, er mai dim ond rhai ohonynt sy'n seiliedig ar ddata y mae modd eu mynegi mewn rhifau. Mae'r rhan fwyaf ohonynt yn defnyddio gweithdrefnau codio arbenigol sydd yn y pen draw yn asesiadau ansoddol. Mae 'mesurau' ansoddol mwy penodol o iechyd democrataidd wedi'u darparu gan amrywiaeth o astudiaethau achos ac astudiaethau cymharol o ddemocratiaeth, yn enwedig y rheini sydd wedi astudio prosiectau penodol ar gyfer arloesiadau cyfranogol mewn democratiaeth. (see Smith, 2009; Elstub and Escobar, 2019; Ryan, 2021).

Un adnodd o'r fath yw **Participedia**: storfa ar-lein ar gyfer astudiaethau achos o fwy na 2,400 o brosiectau ar gyfer arloesi democrataidd mewn 158 o wledydd (Smith et al., 2015; Participedia, 2023). Mae'r prosiect **Democratiaethau Iachach** hefyd yn cynnig enghreifftiau o brosiectau arloesi cyfranogol, yn ogystal â'r **Mynegai Llywodraethiant Cyfranogol** (PGI) sy'n fframwaith ar gyfer asesu ansawdd y system ar gyfer cyfranogiad democrataidd mewn cymuned wleidyddol. (Healthier Democracies, 2023a; 2023b). Mae'r PGI yn darparu meini prawf ar gyfer asesu iechyd pedwar dimensiwn o ran ymgysylltu cyfranogol. Mae'r rhain yn cynnwys: *strwythurau ymgysylltu* sy'n cyfeirio at bresenoldeb a hygyrchedd sianelau ffurfiol ar gyfer cyfranogiad cynhwysol dinasyddion mewn llywodraethu, annog cydweithredu ar draws sectorau, a'r defnydd o dechnoleg gwybodaeth ar gyfer sicrhau cyfranogiad dinasyddion; *cyfleoedd ymgysylltu* sy'n dynodi argaeledd ac amrywiaeth llwybrau ar gyfer cyfranogiad ystyrlon gan ddinasyddion ar faterion sy'n cael effaith; *ymrwymiadau i sicrhau cyfranogiad* sy'n dangos i ba raddau y mae cyfleoedd o'r fath yn cael eu cyfathrebu'n effeithiol, eu ffurfioli'n gyfreithiol, eu cyllidebu, eu staffio, a'u cynnwys mewn nodau strategol y llywodraeth a'r gwaith o fonitro canlyniadau; ac *adeiladu cymunedol* sy'n archwilio i ba raddau y mae'r cyfleoedd hyn yn ysgogi addysg ddinesig a threfniadaeth gymdeithasol / wleidyddol , a darparu lleoliadau ffisegol neu ddigidol ar gyfer rhyngweithio dinasyddion a ffurfio mentrau.

Mae'r drafodaeth hon yn dangos bod y wyddor o fesur democratiaeth yn esblygu'n gyson. Mae'n hanfodol fel y gall mesurau democratiaeth gadw i fyny â'r ddealltwriaeth esblygol a chynyddol eang o beth yw democratiaeth iach yn ein cymdeithas, ond hefyd fel y gellir manteisio ar ddatblygiadau technolegol a methodolegol o ran gwyddor gymdeithasol. Mae'r datblygiadau damcaniaethol a methodolegol hyn yn golygu aliniad agosach rhwng prosesau mesur, delfrydau

iechyd democrataidd, a realiti profiad y rhai sy'n byw mewn cymdeithasau sy'n dyheu am ddemocratiaeth iach yn gallu cyd-fynd yn agosach â'i gilydd. Gall ymgysylltiad cynyddol â'r prosesau hyn ei gwneud yn bosibl i Lywodraeth Cymru a chymdeithas gyfrannu'n well tuag at lunio a datblygu'r mesurau hyn i helpu i gyflawni'r nod o gynnal a darparu iechyd democrataidd yng Nghymru.

## Sut y gallwn ni fonitro iechyd democrataidd yng Nghymru?

Mae angen cydnabyddedig am fwy o ystadegau swyddogol a dulliau eraill o fesur yng Nghymru er mwyn deall sut beth yw iechyd democrataidd i wleidyddion, rhanddeiliaid, a'r cyhoedd. Mae angen mesuriadau rheolaidd a dibynadwy er mwyn monitro – "yr hyn sy'n cael ei fesur yw'r hyn sy'n bwysig – felly mae'n rhaid i ni fesur iechyd ein democratiaeth" (Heydecker, Ormston a Wallace, 2022: 19). Fel yr adolygwyd uchod, mae sawl prosiect rhyngwladol yn darparu mesurau o iechyd democrataidd yn y rhan fwyaf o wledydd y byd, a V-Dem yw'r ffynhonnell fwyaf cynhwysfawr a defnyddiol o blith y rhain. Yn anffodus, er bod yr holl ffynonellau hyn yn cynnwys y Deyrnas Unedig, nid oes yr un ohonynt yn cynnwys unrhyw fesurau ar gyfer Cymru yn benodol.

Mae Tabl 1 isod yn rhoi enghreifftiau o ddangosyddion posibl ar gyfer pob maen prawf ar gyfer democratiaeth iach a amlinellwyd yn gynharach, a'r ffynhonnell (ffynonellau) sydd fwyaf tebygol o gael eu defnyddio ar gyfer pob un i alluogi defnyddwyr i wneud dewisiadau gwybodus ynghylch pa fesurau i'w defnyddio a'u datblygu. Mae'r tabl yn rhestru enghreifftiau o fesurau presennol ar gyfer rhai o feini prawf democratiaeth iach yn y cyd-destun Cymreig, ond byddai angen datblygu eraill i greu darlun mwy cyflawn. Hyd yn oed lle mae mesurau'n bodoli eisoes, efallai y bydd angen mesurau eraill o'r un meini prawf er mwyn rhoi  lefel uchel o sicrwydd i bod mesurau'n ddilys.

Mae dangosyddion cenedlaethol **Llesiant Cymru (WoW)** yn cynnwys o leiaf dri mesur sy'n berthnasol i iechyd democrataidd, a gasglwyd fel rhan o Arolwg Cenedlaethol Cymru: mesurau arolwg o ba gyfran o'r oedolion yng Nghymru sy'n teimlo y gallant ddylanwadu ar benderfyniadau lleol, pa gyfran sy'n teimlo eu bod yn perthyn i'w hardal, a pha gyfran o ddinasyddion sy'n gwirfoddoli (Welsh Government, 2023b). Gellir defnyddio dangosyddion Llesiant Cymru i asesu agweddau ar faen prawf 2 – ymgysylltiad eang â dinasyddion, ac ymwybyddiaeth a chyfranogiad eang yn eu plith.

Mae arolygon **Astudiaeth Etholiad Cymru (WES)** yn cynnwys amrywiaeth ehangach o fesurau o agweddau ac ymddygiad dinasyddion a thros gyfnod hwy o

amser, er yn llai aml.[2] Mae'r prosiect wedi goruchwylio arolygon cynrychioliadol o ddinasyddion sy'n oedolion yng Nghymru ar ôl pob etholiad datganoledig (a rhai o etholiadau cyffredinol a refferenda'r DU) ers 1997, ac mae'r rhan fwyaf o'r arolygon hyn wedi cynnwys mesurau o ddiddordeb dinasyddion mewn gwleidyddiaeth, y nifer a bleidleisiodd mewn etholiadau, ac ymddiriedaeth yn llywodraethau a deddfwrfeydd Cymru a'r DU. Yn ogystal, mae'r arolygon diweddaraf a gynhaliwyd yn 2011, 2016 a 2019 yn cynnwys mesurau o foddhad dinasyddion â'r ffordd y mae democratiaeth yn gweithio yn y wlad; p'un a fyddent yn cymryd rhan mewn gwleidyddiaeth mewn ffyrdd heblaw pleidleisio; a'u gwybodaeth wleidyddol a'u heffeithiolrwydd (The Welsh Election Study, 2023).

Mae'r arolygon hyn yn rhoi cyfle i fesur a monitro gwahanol elfennau o iechyd democrataidd sy'n ymwneud â delfrydau democratiaeth gyfranogol a rheolaeth y bobl; yn enwedig gan eu bod yn ymwneud â maen prawf 2 yn Nhabl 1, yn ogystal â maen prawf 4 – cydraddoldeb gwleidyddol, cymdeithasol ac economaidd, ac agweddau sy'n seiliedig ar ymddiriedaeth o faen prawf 5 – llywodraeth ymatebol, adlewyrchu dymuniadau ac anghenion dinasyddion. Er mwyn galluogi hynny, dylai'r mesurau hyn (ac eraill, e.e. boddhad dinasyddion â'r llywodraeth a gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru) gael eu cynnwys yn gyson yn arolygon Astudiaeth Etholiad Cymru yn y dyfodol, ac yn ddelfrydol yn arolygon dangosyddion cenedlaethol Llesiant Cymru sy'n cael eu maesu'n amlach hefyd.

Gellir monitro cynrychiolaeth ddisgrifiadol a chydraddoldeb gwleidyddol yn rheolaidd hefyd drwy gymharu proffil demograffig ymgeiswyr a chynrychiolwyr etholedig â phroffil y cyhoedd, gan ddefnyddio ystadegau swyddogol ac arolygon ymgeiswyr. Mae **Arolwg Ymgeiswyr Llywodraeth Leol** (Welsh Government, 2023a) eisoes yn casglu'r wybodaeth hon ar lefel leol, sy'n ymwneud ag agweddau ar faen prawf 4, ond gellir ymestyn hynny i lefel y Senedd.

Gellir mesur cydraddoldeb gwleidyddol hefyd drwy ddilyn cydraddoldeb cyfranogiad ffurfiol drwy fonitro cyfraddau pleidleisio fesul grwpiau demograffig. Gellir mesur hyn yn anuniongyrchol drwy arolygon, ond mewn ffordd fwy dibynadwy drwy gofnodi cyfraddau gwirioneddol y nifer a bleidleisiodd fesul rhyw a grŵp oedran, fel y gwnaed mewn etholiadau yng Ngwlad yr Iâ ers 2014. (Hagstofa Íslands, 2016). Yno, caiff y wybodaeth hon ei chofnodi gan weithwyr etholiad pan fydd pleidleiswyr yn cyrraedd yr orsaf bleidleisio i bleidleisio.

---

[2] Mae dau o'r dangosyddion cenedlaethol wedi cael eu casglu tua'n flynyddol ers 2012, a'r trydydd ers 2016, tra bod arolygon Astudiaeth Etholiad Cymru wedi cael eu cynnal ar ôl y rhan fwyaf o etholiadau yng Nghymru ers 1997.

**Tabl 1: Y mesurau o ddemocratiaeth sydd ar gael yng Nghymru**

| Meini prawf democratiaeth iach | Mesur | Ffynonellau mesur | Argaeledd |
|---|---|---|---|
| **1. Etholiadau rhydd a theg a hawliau sifil cryf** | Uniondeb etholiadau | Dadansoddiad arbenigol | Ddim ar gael ar gyfer Gymru. Wedi'i fesur ar lefel ryngwladol gan V-Dem, Freedom House a'r Prosiect Uniondeb Etholiadol |
| | Cystadleurwydd etholiadau | Dadansoddiad arbenigol / ystadegau swyddogol | Ddim ar gael ar gyfer Gymru. Wedi'i fesur gan V-Dem a Freedom House |
| | Amddiffyniadau hawliau sifil | Dadansoddiad arbenigol | Ddim ar gael ar gyfer Gymru. Wedi'i fesur gan V-Dem a Freedom House |
| **2. Ymgysylltiad eang â dinasyddion, ac ymwybyddiaeth a chyfranogiad eang yn eu plith** | Y nifer sy'n pleidleisio mewn etholiadau | Ystadegau swyddogol | Ar gael |
| | Mathau eraill o gyfranogiad dinasyddion mewn gwleidyddiaeth *ffurfiol* (e.e., ysgrifennu at gynrychiolwyr) | Arolygon barn y cyhoedd | Yn yr Astudiaeth o Etholiad Cymru 2016 |
| | Mathau eraill o gyfranogiad dinasyddion mewn gwleidyddiaeth (e.e.cymryd rhan mewn protest) | Arolygon barn y cyhoedd | Yn yr Astudiaeth o Etholiad Cymru 2016 a rhai mesurau Llesiant Cymru |
| | Diddordeb a gwybodaeth wleidyddol dinasyddion | Arolygon barn y cyhoedd | Yn y rhan fwyaf / holl Astudiaethau Etholiadol Cymru |
| **3. Cydymgynghori gwleidyddol rhesymegol ac adeiladol** | Defnydd o gyfiawnhad rhesymegol ymhlith gwleidyddion mewn dadleuon | Dadansoddiad arbenigol | Ddim ar gael – gellid ei ddatblygu gan ddefnyddio diweddariadau i'r Mynegai Ansawdd Cydymgynghorol neu waith cloddio dadleuon |
| | Defnydd o gyfiawnhad ymhlith gwleidyddion dros benderfyniadau sy'n apelio at les pawb (yn hytrach na buddion pleidiol neu bersonol) | Dadansoddiad arbenigol | Ddim ar gael – gellid ei ddatblygu gan ddefnyddio diweddariadau i'r Mynegai Ansawdd Cydymgynghorol neu waith cloddio dadleuon |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | Parch ymhlith gwleidyddion tuag at wrthddadleuon a gwrthwynebwyr | Dadansoddiad arbenigol | Ddim ar gael – gellid ei ddatblygu gan ddefnyddio diweddariadau i'r Mynegai Ansawdd Cydymgynghorol neu waith cloddio dadleuon |
| | Ansawdd y cydymgynghori yn y maes cyhoeddus | Dadansoddiad arbenigol | Ddim ar gael – gellid ei ddatblygu gan ddefnyddio diweddariadau i'r Mynegai Ansawdd Cydymgynghorol neu waith cloddio dadleuon |
| **4. Cydraddoldeb gwleidyddol, cymdeithasol ac economaidd** | Cydraddoldeb ymgysylltu gwleidyddol | Arolygon barn y cyhoedd / ystadegau swyddogol | Peth ar gael yn arolygon Astudiaeth Etholiad Cymru a'r Arolwg Ymgeiswyr Llywodraeth Leol |
| | Mynediad cyfartal i wleidyddiaeth | Arolygon barn y cyhoedd / ystadegau swyddogol / dadansoddiadau arbenigol | Dangosyddion posibl yn arolygon Astudiaeth Etholiad Cymru |
| | Polisïau'n cydgordio â gwahanol grwpiau cymdeithasol | Arolygon barn y cyhoedd / dadansoddiadau arbenigol | Ddim ar gael – gellid ei ddatblygu gan ddefnyddio modelau iaith mawr neu fesurau arolwg |
| | Cynrychiolaeth ddemograffig gytbwys yn y llywodraeth ac ymhlith deddfwyr | Ystadegau swyddogol | Ar gael |
| **5. Llywodraeth ymatebol, sy'n adlewyrchu dymuniadau ac anghenion dinasyddion** | Bodlonrwydd dinasyddion â'r llywodraeth a'r system wleidyddol | Arolygon barn y cyhoedd | Ar gael yn arolygon Astudiaeth Etholiad Cymru ers 2011 |
| | Ymddiriedaeth dinasyddion mewn gwleidyddion, llywodraethau a sefydliadau | Arolygon barn y cyhoedd | Ar gael yn arolygon Astudiaeth Etholiad Cymru ers 2011 |
| | MPpolisïau'n cydgordio â barn y cyhoedd | Arolygon barn y cyhoedd, dadansoddiadau arbenigol | Ddim ar gael – byddai angen cyfuniad o gynnal arolwg a dadansoddi testun |
| | Cred dinasyddion yn eu gallu i ddylanwadu ar wleidyddiaeth | Arolygon barn y cyhoedd | Rhai dangosyddion Llesiant Cymru, e.e. dylanwad / perthyn |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | Ymgynghoriad y llywodraeth â dinasyddion a chymdeithas sifil | Dadansoddiad arbenigol | Ddim ar gael – byddai angen casglu data swyddogol newydd neu gynnal arolwg |
| **6. Mynediad agored i wybodaeth gywir, drwy lywodraeth dryloyw a chyfryngau cryf, annibynnol** | Tryloywder y llywodraeth | Dadansoddiadau arbenigol, Arolwg Barn y Cyhoedd | Ddim ar gael – Pecynnau cymorth dangosyddion ar gael gan, e.e. y Sefydliad ar gyfer Cydweithrediad a Datblygiad Economaidd (OECD) |
| | Rhyddid y cyfryngau | Dadansoddiadau arbenigol, Arolwg Barn y Cyhoedd | Ddim ar gael ar gyfer Gymru. Wedi'i fesur gan V-Dem a Freedom House |

Mae’n bosibl bod atebion mwy pwrpasol ar gael ar gyfer monitro democratiaeth yng Nghymru hefyd a allai ddarparu gwerth da am arian yn y tymor hir. Byddai'r rhain yn gofyn am gomisiynu ymchwil pellach a datblygu offerynnau casglu data yn y lle cyntaf. Rydym wedi sefydlu y bydd arolygon / arolygon elitaidd yn rhan bwysig o unrhyw set o ddangosyddion. Byddai'n bosibl adolygu pa gwestiynau neu offerynnau penodol y gellid eu hychwanegu at arolygon presennol yn y ffordd fwyaf effeithlon. Rydym yn argymell y byddai hyn yn gofyn am fewnbwn gan randdeiliaid ar ba agweddau ar ddemocratiaeth iach sydd bwysicaf, er mwyn canfod y rhai i’w blaenoriaethu ar gyfer Cymru.

Fel arall, byddai arolwg tracio Cymreig pwrpasol o **agweddau tuag at ddemocratiaeth a chynrychiolaeth yng Nghymru** sydd wedi’i safoni yn erbyn meincnodau rhyngwladol, yn hwyluso set lanach o fesurau integredig, a darlun o iechyd democrataidd, gan ddangos yn gryf ei bwysigrwydd. Byddai’n fuddiol petai arolwg pwrpasol ar gyfer iechyd democrataidd yng Nghymru yn gallu integreiddio’n gliriach â sensitifrwydd lleol. Gall gynnwys eitemau’r arolwg a ddatblygwyd ddiweddaraf ar ymddiriedaeth, drwgdybiaeth a diffyg ymddiriedaeth, mesurau i ddeall cwynion a drwgdeimlad gwleidyddol, yn ogystal â mesurau newydd o gyfranogiad, parodrwydd i newid ymddygiad gwleidyddol, ac effeithiolrwydd. Gallai mesurau mwy arloesol gynnwys treialu **Arsyllfa Ddemocrataidd yng Nghymru** gan ddefnyddio dulliau gwyddor dinasyddion i gasglu gwybodaeth am arloesedd cymunedol a chyfleoedd dinesig. Byddai hyn yn golygu bod dinasyddion yn chwarae rhan aseswr arbenigol o ddemocratiaeth, a bod gofyn iddynt o bryd i’w gilydd i ddilyn set glir o gyfarwyddiadau i gofnodi tystiolaeth ar gyfer democratiaeth iach yn eu hardal leol, ac mae’n ddull a fyddai’n cwmpasu ‘cyfranogiad’ a ‘chydweithio’, fel dwy o’r pum ffordd o weithio a nodir yn Neddf Llesiant Cenedlaethau’r Dyfodol (Cymru).

At hynny, er mwyn manteisio ar y cyfoeth o ddata mewn ffynonellau ar-lein a thechnegau blaengar ym maes gwyddor data, gallai Llywodraeth Cymru geisio cyflawni gwaith cloddio dadleuon a mapio er mwyn mesur meini prawf sy’n ymwneud â chydymgynghori rhesymegol a’r graddau y mae polisïau’n cydgordio. Mae'r mesurau hyn yn eginol ond maent wedi dangos addewid o ran dosbarthu a rhagweld yn gywir pan fydd dadl resymegol yn troi’n ymddygiad gwrth-ddemocrataidd. Dylai unrhyw un o’r dulliau hyn wella meincnodau ar gyfer deall democratiaeth iach ac asesu iechyd democrataidd yn rheolaidd, y gall Cymru weithio gyda nhw tuag at gryfhau ei phrosesau democrataidd a sicrhau llesiant ei dinasyddion.

Opsiwn arall fyddai gofyn i un o’r prosiectau / sefydliadau ymchwil hyn – V-Dem yn ôl pob tebyg – gynnwys Cymru yn eu cwmpas, a thrwy hynny ddarparu’n flynyddol fesurau iechyd democrataidd yng Nghymru wedi’u codio gan arbenigwyr. Byddai hyn yn gofyn am rywfaint o waith ymgynghori a dadansoddi costau. Fel arall, gallai Llywodraeth Cymru ddilyn y dull a ddefnyddir gan V-Dem, ac i raddau gan y

ffynonellau eraill a adolygwyd uchod (o ran y dangosyddion sydd wedi'u cynnwys a'r fethodoleg), a chomisiynu dadansoddiad arbenigol o'r elfennau hyn yng Nghymru yn flynyddol. Yn ogystal â V-Dem, gellid comisiynu gwerthusiadau arbenigol o iechyd cyfranogol democratiaeth yng Nghymru gan ddefnyddio'r fframwaith â'r Mynegai Llywodraethiant Cyfranogol; gwerthusiadau o ansawdd cydymgynghorol gan ddefnyddio methodolegy Mynegai Ansawdd Disgwrs; a/neu werthusiadau o uniondeb etholiadol gan ddefnyddio meini prawf y Prosiect Uniondeb Etholiadol.

Mae angen barn oddrychol arbenigol ar bob un o'r opsiynau hynny. Byddai mesurau o'r fath sydd wedi'u codio gan arbenigwyr yn darparu sylfaen bwysig ar gyfer mesur a monitro amrywiol elfennau o iechyd democrataidd dros amser, yn enwedig y rhai sy'n anodd, ac efallai'n amhosibl, eu casglu gyda data gwrthrychol. Fodd bynnag, mae angen cael data megis ystadegau swyddogol ac arolygon cynrychioliadol o ddinasyddion a gasglwyd ar draws ystod ehangach o unigolion hefyd er mwyn mesur a monitro meini prawf democratiaeth iach. Mae'r dull hwn yn darparu cadernid drwy gyfuno cymysgedd deallus o strategaethau casglu data.

# Casgliad

Mae democratiaeth yn ddelfryd i ymgyrraedd ato yn hytrach na chyflwr sefydlog, ac wrth i gymdeithasau newid ac addasu i heriau byd-eang a lleol, mae sefydliadau democrataidd yn addasu gyda nhw i sicrhau bod egwyddorion democratiaeth yn parhau'n gryf ac wedi'u gwreiddio'n iach mewn cymdeithas. Gall Cymru ddysgu o brofiad cenedl-wladwriaethau bychain eraill, megis Gwlad yr Iâ, a llywodraethau rhanbarthol, megis y rhai yn yr Eidal, sydd wedi annog amrywiaeth o weithgareddau a mesurau democrataidd yn y gorffennol diweddar, yn hytrach na dibynnu ar unrhyw fodel unigol.

Mae'r adroddiad hwn yn amlygu pa mor bwysig yw mynd i'r afael â phryderon ynghylch iechyd democrataidd, gan ganolbwyntio'n benodol ar Gymru. Mae ofnau cynyddol am "wrthgilio democrataidd" ledled y byd, gan bwysleisio ymhellach yr angen i ddeall a monitro iechyd democrataidd yng Nghymru er mwyn osgoi tynged gwledydd lle mae normau democrataidd dan fygythiad difrifol. Mae'n amlinellu mesurau posibl o iechyd democrataidd a fyddai'n ei gwneud yn bosibl i Lywodraeth Cymru ganolbwyntio ei hymdrechion ar ffyrdd o gynyddu cyfranogiad ac ymgysylltu a lleihau'r 'diffyg democrataidd'.

Mae diddordeb Llywodraeth Cymru mewn deall sut y gallai democratiaeth iach edrych yng Nghymru a sut i fesur a monitro iechyd democrataidd yn adfywiol yn y cyd-destun hwn. Mae democratiaeth iach yn cwmpasu egwyddorion amrywiol, megis cyfranogiad dinasyddion, mynediad at wybodaeth o ansawdd, a chydmgynghori

rhesymegol. Mae’r adroddiad yn archwilio gwahanol safbwyntiau ar ddemocratiaeth, gan amlygu’r angen i nodi a mesur amrywiaeth o nwyddau democrataidd gwahanol yn eu cyd-destun a thros amser. Mae’n defnyddio gwybodaeth o brosiectau a fframweithiau presennol i nodi dangosyddion y gellir eu defnyddio i fesur iechyd democrataidd yng Nghymru.

Rydym yn argymell ymgorffori mesurau mewn arolygon presennol, megis arolygon Astudiaeth Etholiad Cymru a dangosyddion cenedlaethol Llesiant Cymru, er mwyn casglu data ar agweddau, ymddygiad a boddhad dinasyddion mewn perthynas â democratiaeth. Rydym yn awgrymu defnyddio amrywiaeth o ffynonellau, o gyfuno ac ychwanegu at wybodaeth gan ddefnyddio dadansoddiadau arbenigol, dulliau arolwg ac ystadegau swyddogol, yn ogystal ag arbrofi gyda dulliau pwrpasol gan ddefnyddio modelau iaith mawr neu wyddor dinasyddion. Gall y ffynonellau a'r offerynnau hyn, o'u dylunio mewn ffordd ddeallus, roi mewnwelediadau y gellir gweithredu arnynt ynghylch pryd i ymyrryd i wella cyfranogiad dinasyddion, cydymgynghori gwleidyddol, y graddau mae polisïau’n cydgordio, llywodraethiant ymatebol, a mynediad at wybodaeth. Er bod prosiectau presennol yn darparu mesurau o iechyd democrataidd ar raddfa fyd-eang, mae angen mesurau penodol sydd wedi'u teilwra i Gymru.

Drwy ddeall y meincnodau ar gyfer democratiaeth iach ac asesu iechyd democrataidd yn rheolaidd, gall Cymru fynd i’r afael â’r heriau presennol a gweithio tuag at gryfhau ei sefydliadau democrataidd. Mae’r argymhellion a ddarperir yn yr adroddiad yn fan cychwyn gwerthfawr i lunwyr polisi a rhanddeiliaid yn eu hymdrechion i hyrwyddo democratiaeth iach a ffyniannus yng Nghymru.

# Cyfeirnodau


Astudiaeth Etholiad Cymru. (2023). **Astudiaeth Etholiad Cymru.** Adalwyd o: **https://welshelectionstudycymru.wordpress.com/**

Beste, S., a Wyss, D. (2019). **Quantitative methods in democratic innovation research** yn Elstub, S., ac Escobar, O. (goln), Handbook of Democratic Innovation and Governance Cheltenham: Edward Elgar, tt. 472–485.

Betham, D., Carvalho, E., Landman, T., a Weir, S. (2008). **Assessing the Quality of Democracy: A Practical Guide.** Stockholm: Y Sefydliad Rhyngwladol dros Ddemocratiaeth a Chymorth Etholiadol.

Bohman, J. (1996). **Public Deliberation: Pluralism, Complexity, and Democracy.** Cambridge, MA: The MIT Press.

Bohman, J. (1998). **Survey Article: The Coming of Age of Deliberative Democracy.** Journal of Political Philosophy , 6(4), tt.400–425.

Bryan, F. M. (2004). **Real Democracy: The New England Town Meeting and How It Works.** Chicago, IL: The University of Chicago Press.

Budge, I. (1996). **The New Challenge of Direct Democracy.** Cambridge: Polity Press.

Coppedge, M., et al. (2011). **Conceptualizing and measuring democracy: A new approach.** Perspectives on Politics, 9(2), tt. 247–267.

Coppedge, M., et al. (2022). **V-Dem Codebook v12. Varieties of Democracy (V-Dem) Project.** Adalwyd o: **https://www.v-dem.net/static/website/img/refs/codebookv12.pdf**

Coppedge, M., Lindberg, S., Skaaning, S. E., a Teorell, J. (2016). **Measuring high level democratic principles using the V-Dem data.** International Political Science Review, 37(5), tt. 580–593.

Cutler, F., Johnston R., Carty, R. K., Blais, A., a Fournier, P. (2008). **Deliberation, information, and trust: the British Columbia Citizens' Assembly as agenda setter** Warren, M. E., a Pearse, H. (goln). Designing Deliberative Democracy: The British Columbia Citizens Assembly. Cambridge: Cambridge University Press, tt. 166-191.

Dahl, R. A. (1971). **Polyarchy:  Participation and Opposition.** New Haven, CT: Yale University Press.

Dahl, R. A. (2006). **A Preface to Democratic Theory:  Expanded Edition** (3ydd arg.). Chicago, IL: University of Chicago Press.

Dalton, R. J. (2017). **Political Trust in North America** yn Zmerli, S., a van der Meer, T. W. G. (gol.). Handbook on Political Trust, wedi'i olygu gan Tom W. G. Van der Meer a Sonja Zmerli, tt. 375–95. Cheltenham: Edward Elgar, tt. 375-395.

Davidson, S., ac Elstub, S. (2014). **Deliberative and Participatory Democracy in the UK.** *The British Journal of Politics and International Relations* 16(3), tt. 367-85.

Elstub, A. S., ac Escobar, O. (2019).  **Handbook of Democratic Innovation and Governance**. Cheltenham: Edward Elgar.

Elstub, S., a Gagnon, J. (2015). **A Genealogy of Deliberative Democracy**. Journal of Democratic Theory, 2(1). tt.100–117.

Evans, M., a Stoker, G. (2022). **Saving Democracy**. Llundain: Bloomsbury Academic.

Føllesdal, A. (1998). **Subsidiarity**. Journal of Political Philosophy , 6 tt. 231–259.

Freedom House. (2023a). **Freedom in the World**. Adalwyd o: **https://freedomhouse.org/report/freedom-world#Data**

Freedom House. (2023b). Freedom in the World Research Methodology. Adalwyd o: **https://freedomhouse.org/reports/freedom-world/freedom-world-research-methodology**

Gallie, W. B. (1955). **Essentially Contested Concepts**. Proceedings of Aristotelian Society, 56, tt.167–198.

Garnett, H. A., James, T. S., a MacGregor, M. (2022). **Electoral Integrity Global Report 2019-2021**. Electoral Integrity Global Report. Adalwyd o: **https://www.electoralintegrityproject.com/globalreport2019-2021**

Gastil, J., a Knobloch, K. R. (2020). **Hope for Democracy: How Citizens Can Bring Reason Back into Politics.** Rhydychen: Oxford University Press.

Goodin, R. E., et al. (2007). **Enfranchising All Affected Interests, and Its Alternatives.** Philosophy and Public Affairs, 35(1), tt. 40–68.

Habermas, J. (1985). **The Theory of Communicative Action: Reason and the Rationalization of Society.** Boston, MA: Beacon Press

Hagstofa Íslands. (2016). **Kjörsókn minni meðal yngri en eldri kjósenda. Hagstofa Íslands** (yn Islandeg). Adalwyd o: **https://www.hagstofa.is/utgafur/frettasafn/kosningar/althingiskosningar-29-oktober-2016/**

Healthier Democracies. (2023a). **Healthier Democracies: Healthier Democracies:** Adalwyd o: **https://publicagenda.org/wp-content/uploads/2022/03/Healthier-Democracies-PGI-User-Guide-1.pdf**

Healthier Democracies. (2023b). **Healthier Democracies.** Adalwyd o: **https://www.publicagenda.org/healthier-democracies/**

Held, D. (2006). **Models of Democracy**. Cambridge: Polity Press.

Hetherington, M. J., a Rudolph, T. J. (2015). **Why Washington Won't Work: Polarization, Political Trust, and the Governing Crisis.** Chicago, IL: University of Chicago Press.

Heydecker, R., Ormston, H., a Wallace, J. (2019) **GDWe: A spotlight on democratic wellbeing.** Carnegie UK. Adalwyd o: **https://carnegieuktrust.org.uk/publications/gdwe-a-spotlight-on-democratic-wellbeing/**

International IDEA. (2023). **Global State of Democracy Indices.** Adalwyd o: **https://www.idea.int/data-tools/tools/global-state-democracy-indices**

Jennings, M. K. (1987). **Residues of a Movement: The Aging of the American Protest Generation.** The American Political Science Review, 81(2), tt. 367–382.

Jennings, W., Clarke, N., Moss, J., a Stoker, G. (2017). **The Decline in Diffuse Support for National Politics: The Long View on Political Discontent in Britain.** Arolwg Barn y Cyhoedd Chwarterol 81(3), tt. 748–58.

Levitsky, S., a Ziblatt D. (2018) **How Democracies Die**. Efrog Newydd, NY: Penguin Random House.

Llywodraeth Cymru. (2023a). **Arolwg Ymgeiswyr Llywodraeth Leol: 2022**. Adalwyd o: https://www.llyw.cymru/arolwg-ymgeiswyr-llywodraeth-lleol-2022

Llywodraeth Cymru. (2023b). **Llesiant Cymru: dangosyddion cenedlaethol. Llywodraeth Cymru.** Adalwyd o://llyw.cymru/arolwg-cenedlaethol-cymru-dangosydd-canlyniadau

Manin, B. (1997) **The Principles of Representative Government**. Cambridge: Cambridge University Press.

Mansbridge, J. J. (1983). **Beyond adversary democracy**. Chicago, IL: University of Chicago Press.

Marshall, M. G., Gurr, T. R., a Jaggers, K. (2014). **Polity IV Project**. Adalwyd o: https://www.systemicpeace.org/inscr/p4manualv2018.pdf

Mill, J. S. (1861). **Considerations on Representative Government.** Llundain: The Electric Book Company.

Miller, D. (2009). **Democracy's domain**. Philosophy and Public Affairs, 37(3), tt. 201–228.

Moore, D. (2023). **Building Bridges: Wales' democracy - now, and for our future.** Sefydliad Materion Cymreig. https://www.iwa.wales/wp-content/media/IWA_Building-Bridges-FINAL.pdf

Participedia. (2023). **Participedia**. Adalwyd o: https://partiipedia.net

Pateman, C. (1970). **Participation and Democratic Theory**. Cambridge: Cambridge University Press.

Pickvance, C. G. (1997). **Decentralization and democracy in Eastern Europe: A sceptical approach.** Environment and Planning C: Government and Policy 15(2), tt. 129–142.

Polity5. (2023). **The Polity Project**. Center for Systemic Peace. Adalwyd o: https://www.systemicpeace.org/polityproject.html

Przeworski, A. (1999). **Minimalist Conception of Democracy: A Defense in:** Shapiro, I., a Hacker-Cordón, C. (Goln), Democracy's Values. Cambridge: Cambridge University Press, tt. 23-55.

Phillips, A. (1995). **The Politics of Presence**. Rhydychen: Oxford University Press.

Rawls, J. (1971). **A Theory of Justice: Revised Edition.** Cambridge, MA: Harvard University Press.

Ryan, M. (2021). **Why citizen participation succeeds or fails: A comparative analysis of participatory budgeting.** Bristol: Bristol University Press.

Saward, M. (2003). **Enacting democracy**. Political Studies, 51(1), tt.161-179.

Schumpeter, J. A. (1942). **Capitalism, Socialism and Democracy**. Llundain: Routledge

Smith, G. (2009). **Democratic innovations: Designing institutions for citizen participation**. Cambridge: Cambridge University Press.

Smith, G., Jr, R. C. R., a Gastil, J. (2015). **The Potential of Participedia as a Crowdsourcing Tool for Comparative Analysis of Democratic Innovations.** Policy and Internet. 7(2). tt. 243–262

Steiner, J., Bächtiger, A., Spörndli, M., a Steenbergen, M. (2004). **Deliberative Politics in Action: Analyzing Parliamentary Discourse.** Cambridge: Cambridge University Press.

Steiner, N. D. (2016). **Comparing Freedom House Democracy Scores to Alternative Indices and Testing for Political Bias: Are US Allies Rated as More Democratic by Freedom House?** Journal of Comparative Policy Analysis: Research and Practice, 18(4), tt. 329–349.

Stoker, G. (2017). **Why Politics Matters** (ail rifyn). Llundain: Palgrave Macmillan.

Touchton, M. a Wampler B. **Improving Social Well-Being Through New Democratic Institutions.** Comparative Political Studies, 47(10), tt. 1442–1469.

The Economist Intelligence Unit. (2023). **Democracy Index 2022: Frontline democracy and the battle for Ukraine.** Adalwyd o: **https://www.eiu.com/n/campaigns/democracy-index-2022/**

The Quality of Government Institute. (2023). Adalwyd o: **https://www.gu.se/cy/quality-government**

Varieties of Democracy. (2023). **The V-Dem Project.** Adalwyd o: **https://v-dem.net/about/v-dem-project/**

Walzer, M. (1983). **Spheres of Justice: A Defense of Pluralism and Equality.** Efrog Newydd, NY: Basic Books.

Wellman, C. H. (2008). **Immigration and freedom of association.** Ethics, 119(1), tt. 109–141.

Young, I. M. (1990). **Justice and the Politics of Difference.** Princeton, NJ: Princeton University Press.

## Manylion yr Awduron

**Mae Dr Viktor Valgardsson** yn Gymrawd Gyrfa Gynnar Leverhulme ym Mhrifysgol Southampton. Mae ei arbenigedd ym meysydd ymddiriedaeth wleidyddol, cyfranogiad gwleidyddol a barn y cyhoedd.

Mae Dr Matt Ryan yn Athro Cyswllt mewn Llywodraethiant a Pholisi Cyhoeddus ac yn Gymrawd Arweinydd y Dyfodol UKRI ym Mhrifysgol Southampton. Mae ei arbenigedd ym meysydd arloesedd democrataidd, gwyddor y we a methodoleg y gwyddorau cymdeithasol.

**Mae'r Athro Will Jennings** yn Ddeon Cyswllt Ymchwil yng Nghyfadran y Gwyddorau Cymdeithasol ac yn Athro Gwleidyddiaeth ym Mhrifysgol Southampton. Mae ei arbenigedd ym meysydd polisi cyhoeddus, ymchwil barn gyhoeddus a methodolegau pleidleisio.

Mae'r Athro James Downe yn Athro mewn Polisïau Cyhoeddus a Rheolaeth yn Ysgol Busnes Caerdydd ac yn Gyfarwyddwr Ymchwil Canolfan Polisi Cyhoeddus Cymru.

**Mae Greg Notman** yn Swyddog Ymchwil yng Nghanolfan Polisi Cyhoeddus Cymru.

I gael rhagor o wybodaeth, cysylltwch â’r:
**Athro James Downe**
Canolfan Polisi Cyhoeddus Cymru
+44 (0) 29 2087 5345
james.downe@wcpp.org.uk

OGL Mae'r adroddiad hwn wedi'i drwyddedu o dan delerau’r Drwydded Llywodraeth Agored

Wales Centre for Public Policy
Canolfan Polisi Cyhoeddus Cymru